

## CYFLWYNIAD

Mae yna ddi-ddordeb cynyddol mewn defnyddio anifeiliaid sy'n chilota am fwyd i reoli coetiroedd. Gall moch reoli coetiroedd yn dda iawn dan rai amodau ac maent yn dod yn fwy poblogaidd fel rheolwyr coetiroedd. Gellir defnyddio moch yn hawdd i glirio'r 'sgrwtsh' a'r isdyfiant mewn coetir gan helpu glasbrennau, porfa'r goetir a phlanhigion llysieuol bach i adfywio. Gellir defnyddio'r un gallu i glirio hefyd i helpu ciperiaid, curwyr a rheolwyr i symud drwy'r goetir yn ddi-rwystr, trwy greu traciau. Ond gan mai fel arf teneuo y'u defnyddir yn bennaf, ni ellir eu cadw mewn coetir drwy'r flwyddyn ar ei hyd. Defnyddiwyd moch hefyd i gael gwared â choed Rhododendron ymledol yn yr Alban. Mae arferion o'r fath yn golygu y gellir defnyddio llai o blaleiddiaid a pheiriannau i reoli coetiroedd.

## BRIDIAU

Mae'r dewis cywir o frid yn ffactor allweddol wrth ddefnyddio moch mewn coetiroedd. Rhaid i foch y goetir fod yn wydn, yn dda am chwilota am fwyd ac yn gallu gwrthsefyll llosg haul i ryw raddau. Bydd y moch allan yn yr awyr agored am gyfnodau maith, efallai mewn tywydd garw, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r rhinweddau dymunol yn fwy cysylltiedig â'r bridiau moch traddodiadol fel Tamworth, Berkshire, British Saddleback, Duroc, Gloucester Old Spot, a'r mochyn Cymreig.

## STOCIO A LLOCHES

Rhaid darparu lloches i foch ym mhob ardal fwydo. Gellir defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i wneud y lloches, o fynau mawr o wellt gyda tho pren haenog neu do sinc rhychiog hyd at eirch a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer moch.

Nid oes unrhyw argymhellion penodol ar gyfer cyfraddau stocio moch mewn coetiroedd oherwydd mewn sawl achos mae'n dibynnu ar y rheswm dros eu rheoli yn y modd yma. Fodd bynnag, dau anifail yw'r isafswm gan fod moch yn anifeiliaid cymdeithasol iawn. Dylid cadw moch naill ai fel grwpiau teulu neu mewn grwpiau o'r un oed a rhyw. Dylid eu cadw yn y goetir nes bod oddeutu dwy ran o dair o'r safle wedi'i glirio, yna'u symud ymlaen rhag i'r moch ddechrau diflasu. Un o arwyddion diflastod yw moch yn dianc. Dylid rhoi bwyd ategol i'r moch hyd yn oed pan fyddant yn y goetir, er mwyn sicrhau diet cytbwys. Gellir defnyddio bwyd ategol i annog y moch i fynd i ardaloedd o lystyfiant nad ydynt wedi bod yn bwydo ynddynt o'r blaen. Dylid nodi bod Deddf Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid 1999 yn gwahardd bwydo gwastraff domestig neu arlwyo i foch.

Mae'r dulliau a ddisgrifir yma yn berthnasol i ddefnyddio moch i reoli coetir yn sensitif. Gall moch fod yn greaduriaid dinistriol iawn, yn enwedig moch mawr sy'n gallu difa fflora ar lawr, llwyni a hyd yn oed goed llawn-dwf os cânt eu gadael yn rhy hir yn yr un ardal. Gallant hefyd ddinistrio gweddillion archaeolegol fel ffrwrneisi golosg sydd i'w canfod mewn llawer o goetiroedd. Gall cadw nifer fach o foch bach a'u symud yn rheolaidd fod yn hynod o effeithiol wrth reoli mieri a rhedyn mewn coetiroedd, ond nid yw'n ffordd gadarn yn fasnachol o gynhyrchu cig mochyn.

**Cofiwch:**

- Ddewis bridiau neu groesfridiau gwydn, e.e.: Tamworth, Berkshire, Gloucester Old Spot.
- Dechrau gyda moch 8 wythnos oed wedi'u diddyfnu a'u cau mewn ardal fechan, 0.1ha, gan ddefnyddio ffens drydan. Rhaid iddynt hefyd gael lloches sych, dŵr glân drwy'r amser a bwyd ategol bob dydd. Er y gellir defnyddio ffensys trydan i gadw'r moch mewn ardaloedd dethol dros dro, bydd angen ffensio'r ardal gyfan yn gadarn iawn gyda rhwydi moch.
- Mae angen archwilio'r moch yn rheolaidd a byddwch yn barod i symud y ffens a'r lloches yn rheolaidd er mwyn atal niwed i goed a llwyni. Gall hyn fynd dros ben llestri'n fuan iawn.

**Moch Tamworth yn chwilota am fwyd****Peidiwch â:**

- Chadw mochyn ar ei ben ei hun. Maen nhw'n greaduriaid cymdeithasol.
- Disgwyl cael y gorau o'r moch a'r goetir fel ei gilydd. Ni fydd moch sy'n derbyn dogn lawn o fwyd yn chwilota am fwyd gyda'r un brwdfrydedd â rhai sy'n derbyn dognau llai. Ar sail profiad yn Fairbirch, byddai mochyn a fyddai'n gorffen ar 24 wythnos mewn lloc yn gorffen ar 30 wythnos yn y coed.
- Gadael i'r moch chwilota am fwyd yn y goetir fel y mynnant. Maen nhw'n anifeiliaid dethol iawn ac yn aml byddant yn anwybyddu'r ardaloedd lle'r rydych am iddynt chwilota am fwyd. Dylech eu rheoli'n ofalus gyda ffensys trydan dros dro.
- Disgwyl i'r moch fynd i'r afael â llecynnau helaeth o redyn. Gall moch fod yn effeithiol iawn wrth glirio rhedyn ond mae'r dail yn arbennig yn cynnwys gwenwyn sy'n arwain at ddiffyg fitamin B, a all fod yn angeuol. Argymhellir bwyd ategol, ond dylech ofyn am gyngor milfeddyg bob amser. Bydd dechrau arni yn yr hydref a'r gaeaf yn osgoi'r dail sy'n tyfu.

O'u defnyddio'n iawn, gall moch fod yn hynod o effeithiol wrth ddinistrio twf mieri helaeth mewn coetiroedd am gyfnod. Gallant gyflawni hyn mewn unrhyw beth o ychydig ddyddiau i wythnos neu ddwy cyn bod angen eu symud, yn dibynnu ar faint y moch a natur y gorchudd daear. Mae'n anorfod y bydd y mieri'n aildyfu ond bydd yr amodau agored a gaiff eu creu yn rhoi cyfle i goed a phlanhigion ifanc eraill ddechrau tyfu. Mae'n debyg y bydd angen teneuo rhywfaint ar ganopi'r goetir i adael golau i mewn, er mwyn i'r rhain ffynnu. Bydd angen trwydded dorri ar gyfer hyn oni bai ei fod yn rhan o gynllun rheoli cymeradwy, sy'n golygu y gall y gwaith ffensio a theneuo fod yn gymwys am gymorth grant. Edrychwch ar [www.forestry.gov.uk](http://www.forestry.gov.uk) neu [www.coedcymru.org.uk](http://www.coedcymru.org.uk)

Diolch i Vic Lilygreen a Colin Owen am eu profiad o ddefnyddio moch yng Nghoed Fairbirch, Penrhyn Gŵyr.

Gwybodaeth bellach:

[www.pigsinwoodlands.co.uk](http://www.pigsinwoodlands.co.uk)